Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Tirwedd Cenedlaethol

Clwydian Range and Dee Valley
National Landscape

# CYD-BWYLLGOR
# o'r
# CLWYDIAN RANGE A DYFFRYN DYFRDWY
# ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL

**Wedi'i gynnal ar: 15 Tachwedd 2024**

**Aelod / Swyddog Arweiniol: Steve Gadd**

**Awdur yr Adroddiad: Paula O'Hanlon**

**Teitl: Cyllideb y Cydbwyllgor a Chanlyniadau Rhagolwg 2024/25**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion sefyllfa alldro cyllideb refeniw presennol yr AHNE ar gyfer 2024/25.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi diweddariad ar sefyllfa ariannol yr AHNE ar gyfer 2024/5.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Gofynnir i'r Aelodau nodi'r alldro ariannol diweddaraf a ragwelir ar gyfer 2024/25 (Atodiad 1) a'r cynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni.

## 4. Manylion yr adroddiad.

Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o gyllideb refeniw'r AHNE ar gyfer 2024/25 fel y manylir yn Atodiad 1. Mae'r alldro a ragwelir ar hyn o bryd yn gofyn am gyllid o £48,312 a fydd, fel y cytunwyd wrth osod y gyllideb, yn cael ei ariannu o'r Gronfa Refeniw AHNE.

## 5. Sut mae'n cyfrannu at Flaenoriaethau Cynlluniau Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?

Bydd rheolaeth effeithiol o gyllidebau refeniw'r AHNE yn helpu i gyflawni blaenoriaethau'r cynllun rheoli y cytunwyd arnynt ar gyfer y flwyddyn gyfredol ac mae'n sail i weithgarwch ym mhob maes, yn enwedig ein perthynas â phartneriaid ariannu a'n blaenoriaethau ar y cyd.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid atodi'r templed EqIA wedi'i gwblhau fel atodiad i'r adroddiad.**

*Ddim yn berthnasol*

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Cyflwynwyd y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2024/25 i gyfarfod y Cyd-bwyllgor ym mis Mehefin a'i chymeradwyo

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a ragwelir ar gyfer yr AHNE ar gyfer 2024/25.

O ran blwyddyn ariannol 2024/25 mae ariannu'r AHNE yn dibynnu ar ddefnyddio'r gronfa refeniw wrth gefn. Bydd gweddill y gronfa refeniw oddeutu £22k.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae'r gyllideb bresennol yn ddibynnol ar incwm gan CNC a'r 3 Awdurdod Lleol. Bydd unrhyw newidiadau i'r lefelau incwm hyn yn peri risg i gyflawniad prosiectau yn y dyfodol a'n gallu i gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau yn y Cynllun Rheoli AHNE.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.